# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Mehefin 2012

# Eisteddfodau

## MicroEisteddfod Camwy a MiniBethel




Mae tymor yr eisteddfodau wedi dechrau!

MicroEisteddfod Camwy oedd y gyntaf, ac fe'i cynhaliwyd yn Hen Gapel Bethel ar yr 16eg o Fehefin. Disgyblion Ysgol Camwy oedd yn trefnu ac yn arwain yr eisteddfod, ac roedden nhw wedi bod yn brysur iawn yn llunio'r rhaglen, yn paratoi gwobrau, ac yn addurno'r llwyfan yn barod at y diwrnod mawr.



Roedd bron pob sedd yn llawn yn yr Hen Gapel wrth i'r eisteddfod gael ei hagor mewn gair o weddi - Martin Hughes yn Gymraeg a Rafael Terron Lloyd yn Sbaeneg. Ar ôl i bawb ganu anthem yr Ariannin dechreuodd y cystadlu! Ymddangosodd plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o gystadlaethau - corau, partïon cydadrodd, unawdau canu ac adrodd, a dawnsio gwerin.



Beirniaid y dydd oedd Sylvia Baldor yn yr adran gerddoriaeth, Sara Jones yn y dawnsio gwerin, Elliw Baines Roberts yn yr adrodd Cymraeg. Cafodd canlyniadau'r cystadlaethau gwaith cartref eu cyhoeddi o'r llwyfan hefyd, gyda Camilo Calvo yn cael ei gadeirio yn brifardd yr eisteddfod.




Yn wahanol i'r arfer, cynhaliwyd gêmau o lwyfan y MicroEisteddfod dan ofal Iwan Madog a Lois Dafydd (Menter Patagonia). Roedd y gêmau hyn yn cynnwys ffurfio gwahanol siapiau mewn grŵp (coeden, ceffyl, eliffant), cystadleuaeth limbo, garglo, a rhannu'n ddau dîm i restri cymaint o eiriau Cymraeg sy'n dechrau gyda'r llythrennau 'A' ac 'C' â phosib. Ymunodd pawb, yn blant, pobl ifanc, ac oedolion yn yr hwyl!



Aeth y cystadlu yn ei flaen tan ddiwedd y prynhawn ac ar ôl y gystadleuaeth olaf, daeth yr eisteddfod i ben gyda phawb yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Trowch y dudalen i ddarllen am Eisteddfod MiniBethel...

Lois Dafydd




Eisteddfod MiniBethel oedd y nesaf a chafodd hi ei chynnal yn yr Hen Gapel hefyd, ar brynhawn Sadwrn y 30ain o Fehefin.



Roedd yr ystafell wedi'i haddurno'n ddeniadol a phentwr o fagiau lliwgar yn llawn losin ar gyfer y cystadleuwyr. Arweiniodd Marli Pugh y gynulleidfa yn anthem yr Ariannin, ac ar ôl i Maite Arce (Cymraeg) ac Agustina Griffiths (Sbaeneg) agor yr eisteddfod mewn gweddi daeth nifer o blant i'r llwyfan yn eu tro i ganu ac adrodd yn unawdau a phartïon yn y Gymraeg a'r Sbaeneg gan hawlio'u bagiau o ddanteithion!



Bu nifer o blant ac oedolion yn brysur dros ben cyn diwrnod yr eisteddfod, yn ysgrifennu, coginio, paentio, darlunio, a gwnïo, a chafodd canlyniadau'r rhain eu cyhoeddi o'r llwyfan. Gonzalo Lizama a Samira Orive oedd arweinwyr y rhan gyntaf a phan ddaeth tro'r to hŷn i gystadlu daeth Glenda Thomas a Santiago Meza i'r llwyfan ac arwain gweddill y noson.



Roedd digon o waith ar gyfer y beirniaid - Judith Williams a Marli Pugh yn y canu, Nelcis Jones yn yr adrodd Sbaeneg, Sara Jones yn yr adrodd Cymraeg gyda Romina Hererra yn cyfieithu'i beirniadaethau.

Cyn diwedd y noson daeth gwahanol unigolion i ganu ac adrodd ar y llwyfan, ac fe'i llanwyd yng nghystadlaethau'r Côr Ysgol Sul, Côr Teulu, a chorau'r Ysgol Gerdd. Ar ôl i'r feirniadaeth olaf gael ei thraddodi ar ddiwedd prynhawn prysur daeth yr eisteddfod i'w therfyn gyda phawb yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau' dan arweiniad Gladys Thomas.



Llongyfarchiadau i bwyllgor y ddwy eisteddfod ar eu gwaith caled a diflino!











# ‘Diwrnod y Faner’

Ar 20 Mehefin 1820 bu farw Manuel Belgrano, sef dylunydd baner yr Ariannin. Felly ar y dyddiad hwn bob blwyddyn ry’n ni’n ei goffáu gan dalu teyrnged i’r faner.

Roedd eleni yn flwyddyn arbennig, gan ei bod yn nodi 200 mlynedd ers i’r faner gael ei chwifio am y tro cyntaf. Digwyddodd hyn yn ystod Rhyfel Annibyniaeth yr Ariannin; ar lan Afon Paraná ar 27 Chwefror 1812 chwifiodd y faner las golau a gwyn am y tro cyntaf. Un o’r rhesymau dros greu’r faner oedd i wahaniaethu’r Ariannin oddi wrth Sbaen, ac mae ’na wahanol ddehongliadau i ystyr y faner. Mae rhai pobl yn dweud mai’r awyr ydy’r lliw glas a’r cymylau y lliw gwyn, tra bod eraill yn credu mai symbol o’r Forwyn Fair ydyn nhw.



Mae ysgolion y wlad yn talu teyrnged i’r faner trwy ei chodi ar ddechrau pob diwrnod  ysgol. Ond ar yr 20fed o Fehefin bydd seremonïau tebyg yn cael eu cynnal ar hyd a lled yr Ariannin er mwyn cofio’r achlysur arbennig. Ar y diwrnod hwn hefyd bydd plant oedran blwyddyn pedwar pob ysgol gynradd y wlad yn tyngu llw o deyrngarwch i’r faner, cyn iddyn nhw dderbyn tystysgrif arbennig. Yn Ysgol yr Hendre Trelew, tyngodd un ar ddeg o blant lw i’r faner eleni. Hon oedd acto gyntaf yr adeilad newydd, ac roedd nifer o blant, athrawon, rhieni a chyfeillion yr ysgol yno ar gyfer yr achlysur. Bu Sara Jones ac Emelia Aguilera yn arwain y seremoni cyn i’r plant dyngu llw.



Ar y 19eg o Fehefin, cynhaliodd Ysgol Feithrin y Gaiman ei seremoni hi. Daeth nifer o rieni i’r ysgol lle’r oedd y plant a’r athrawon wedi paratoi cyflwyniad arbennig ar eu cyfer nhw. Estynnodd y brifathrawes, Liliana Evans groeso i bawb cyn i rai o’r plant gario baner yr Ariannin a’r Ddraig Goch i’r ystafell, a phawb yn canu anthem yr Ariannin. Yn dilyn hyn adroddodd Lois Dafydd hanes Manuel Belgrano a baner yr Ariannin wrth i Lovaine James osod lluniau perthnasol ar y wal, a’r plant yn defnyddio gwahanol offerynnau i greu synau’r môr, y brwydro a charnau’r ceffylau - clychau, triongl, darnau o bren a thamborin.

Diwrnod y Faner Llawen i Bawb!







# Y Ffair Lyfrau




Cynhaliwyd yr 28ain Ffair Lyfrau yng Nghanolfan Hamdden y Gaiman o'r 7fed hyd y 10fed o Fehefin, wedi'i threfnu gan Lyfrgell Richard Jones Berwyn. Cafodd y ffair ei hagor gyda chynrychiolwyr o'r gwahanol ysgolion lleol yn cario'r baneri a phawb oedd yno yn canu anthem yr Ariannin, cyn i faer y Gaiman, Gabriel Restucha rannu gair gyda'r dorf.

Roedd amrywiaeth o stondinau yn y neuadd yn cael eu rhedeg gan wahanol ysgolion a sefydliadau, gyda phwyslais pob un ar lyfrau, wrth gwrs. Roedd stondin Ysgol Feithrin, Dosbarthiadau Cymraeg a Menter Patagonia yn boblogaidd iawn, lle câi'r plantos gyfle i ddarllen, chwarae, paentio, casglu sticeri, a chael eu hwynebau wedi'u paentio'n lliwgar. Bu staff yr Ysgol Feithrin, rhieni, aelodau'r pwyllgor dosbarthiadau, Elliw Roberts a Lois Dafydd yn gofalu am y stondin lliwgar yn eu tro, lle roedd hefyd bara a bagiau 'Siopa' arbennig ar werth. Y drws nesaf i hon oedd stondin Cymdeithas Camwy, lle'r oedd arddangosfa arbennig ar fywyd Nel Fach y Bwcs oedd wedi cael ei pharatoi gan Amgueddfa'r Gaiman. Roedd llyfrau Cymraeg a Sbaeneg ar werth gan yr amgueddfa, a bu disgyblion Ysgol Camwy yn gyfrifol am y gwerthu. Roedd gan y Capeli Cymreig, sef Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa ei stondin hefyd, lle gwerthid llyfrau amrywiol sydd wedi cael eu cyhoeddi gan y Feibl Gymdeithas, oedd yn cynnwys gwahanol fersiynau o'r Beibl, esboniadau, ac roedd i'r Testament Newydd Cymraeg-Sbaeneg ei le amlwg. Y Parch. Carlos Ruiz a gwirfoddolwyr o'r capeli fu'n gofalu am y stondin hon.



Yn ogystal â'r stondinau, cynhaliwyd gwahanol weithgareddau a pherfformiadau trwy gydol y penwythnos. Lansiwyd ambell lyfr ac ymddangosodd y côr Corococo o Drelew, Ekeko Dúo, côr plantos ac ieuenctid yr Ysgol Gerdd a nifer o gerddorion eraill ar lwyfan y neuadd.



Un o weithgareddau'r Ffair Lyfrau ar y prynhawn Sadwrn oedd panel o diwtoriaid Cymraeg lleol sydd wedi derbyn hyfforddiant yng Nghymru. Cafwyd adroddiadau bywiog gan Juan Davies, Rebeca Henry, Caren Jones, ac Angelica Evans. Mae Juan (Siôn) yn dysgu dosbarthiadau oedolion yn y Gaiman, Rebeca yn athrawes Gymraeg i ddosbarthiadau 10, 11 a 12 yn Ysgol Camwy, tra bod Caren yn dysgu dosbarthiadau 7, 8 a 9 Ysgol Camwy ac Ysgol Aliwen. Mae Angelica, a aeth i Gymru gyda'i phlant, Pablo 9 oed ac Iestyn 7 oed, yn dysgu plant oedran cynradd a meithrin. Cafodd y bobl oedd wedi dod i wrando ar y pedwar yn siarad gyfle i ofyn cwestiynau ar y diwedd, a chafwyd trafodaeth ddiddorol dros ben.



# Holi Ethel Williams...

1. **O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?**
   *Roedd y teulu yn byw ar ffarm yn Lle Cul, o'r enw Plas Madog. Ond pan oeddwn i'n 16oed symudon ni i fferm arall o'r enw Bryn Tirion. Roedden ni'n wyth o blant - pum merch a thri bachgen. Roedden ni'n mynychu Capel Salem deirgwaith bob dydd Sul - dau gwrdd ac Ysgol Sul. Dwi'n byw yn y Gaiman ers ymddeol.*

2. **Beth ydy eich atgofion o fod ar y ffarm?**
   *Dwi'n cofio godro'r gwartheg. Roedd tua deg buwch ar y ffarm, a byddwn ni'n eu godro ddwywaith y dydd.*

3. **Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?**
   *Pan oeddwn i'n blentyn. Dim ond Cymraeg fyddwn ni'n ei siarad yn y tŷ. Dysgais i'r Sbaeneg pan ddechreuais i'r ysgol yn chwech oed.*

4. **Beth oedd eich swydd?**
   *Roeddwn i'n gweithio yn yr Ysbyty Prydeinig yn Buenos Aires am 30 mlynedd, yn helpu'r nyrs. Gweithiais ar y ward lle'r oedd pobl yn dioddef o'r diciâu (TB). Mwynheais y gwaith yn fawr!*

5. **Beth ydych chi'n hoffi/ddim yn hoffi ei wneud?**
   *Dwi'n hoffi siarad, ac roeddwn i'n hoffi trin traed pobl. Dwi ddim yn hoffi coginio! Roeddwn i'n paratoi bwyd adref, ond erbyn hyn dwi'n prynu bwyd.*

6. **Beth ydy eich hoff/cas fwyd?**
   *Dwi'n hoffi bwyta popeth, yn enwedig siocled! Does gen i ddim cas fwyd, ond dwi'n ofalus iawn wrth brynu pysgod.*

7. **Ydych chi wedi bod i Gymru?** *Naddo. Roedd fy nhad yn dod o Fetws-y-Coed, a daeth yma'n ifanc. Archentwraig oedd fy mam.*

8. **Ble mae eich hoff le yn y byd?** *Gaiman.*

# Cymanfa Ganu




Capel Salem oedd lleoliad Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant ym mis Mehefin, ac roedd yn achlysur arbennig iawn gan fod y capel yn dathlu ei ben blwydd yn 100 oed eleni!

Cyrhaeddodd pobl y capel, sydd wedi'i wneud o sinc, i sain Lis Suarez ar yr organ a David Pacheco ar y sacsoffon, a dechreuodd y canu dan arweiniad Soraya Griffiths. Roedd cyfle i ddysgu emynau newydd yn ogystal â chanu'r hen ffefrynnau - yn Gymraeg ac yn Sbaeneg - a'r arweinwyr eraill oedd Gladys Thomas, Rebeca White, Marli Pugh, ac Edith Macdonald. Unwaith eto, roedd canu braf yn llenwi'r capel! Darllenodd Marlin Elis adnodau o Effesiaid pennod 2, cyn i Lois Dafydd rannu neges yn seiliedig ar y bennod honno, gan ofyn y cwestiwn, 'Sut allwn ni gael heddwch?'




Roedd cyfle i sgwrsio a thynnu lluniau y tu allan i'r capel ar ddiwedd y gymanfa, cyn i bawb droi am adref.

Bydd y gymanfa nesaf yn cael ei chynnal yng Nghapel Berwyn Rawson am 16.00 ar brynhawn Sadwrn yr 21ain o Orffennaf.

# Cyngerdd Hogia'r Wilber

Roedd neuadd Tŷ Gwyn y Gaiman dan ei sang nos Wener y 29ain o Fehefin ar gyfer cyngerdd yng nghwmni Hogia'r Wilber.




Yn dilyn rhai blynyddoedd o seibiant, mae'r pedwarawd bellach wedi ailffurfio gydag un aelod newydd, ac maen nhw'n cael eu hyfforddi gan Edith Macdonald.

Marcelo Griffiths, Roberto Jones, Billy Hughes a Hector Ariel Macdonald yw'r pedwarawd, ac roedd tocynnau'r cyngerdd i gyd wedi eu hen werthu ymlaen llaw. Felly pan agorodd y drysau am naw o'r gloch, heidiodd degau ar ddegau o bobl i'r neuadd yn barod am wledd o gerddoriaeth.

Mae'r pedwarawd yn canu amrywiaeth o ganeuon gwerin yn y Gymraeg, y Sbaeneg a'r Saesneg, a chafodd y gynulleidfa modd i fyw yn gwrando ar ganeuon megis 'Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan', 'Las Golondrinas', 'Danny Boy', 'Ti a dy ddoniau', a 'Volveré a San Juan'. Ymunodd nifer o'r gynulleidfa i ganu rhai o'r caneuon hyn! Roedd hefyd unawdau gan y gwahanol aelodau, a pherfformiadau o hwiangerdd o Seland Newydd, 'Hine-Hine', a dawns-gân o Hwngari, 'Dana-Dana'



Roedd hi'n noson hwyliog dros ben a phawb yn amlwg wedi mwynhau yn fawr.

Cododd y gynulleidfa ar ei thraed i estyn cymeradwyaeth wresog i'r pedwarawd ar ddiwedd y cyngerdd.

# Diolch yn fawr!


Hoffai Menter Patagonia, Ysgol Feithrin Gaiman, ac Ysgol yr Hendre ddiolch o galon i Christina Hollow am eu rhoddion hael o Gymru. Dychwelodd Christina, sydd yn dilyn cwrs gradd gyfun y Gymraeg a'r Sbaeneg ym Mhrifysgol Aberystwyth i Ddyffryn Camwy fis Mai ar ôl iddi dreulio ychydig fisoedd ym Mhrydain. Cludodd hi lyfrau, gêmau a gwahanol adnoddau defnyddiol iawn ar gyfer plant, pobl ifanc, ac oedolion yn y Gymraeg.

Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i S4C, Cyngor Llyfrau Cymru ac Atebol am eu rhoddion caredig hwythau ar gyfer y gwaith yma ym Mhatagonia.

## Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

### Anifeiliaid / *Animales*

| | |
|---|---|
| Pa un ydy dy hoff anifal? | *Cuál es tu animal preferido?* |
| Ci ydy fy hoff anifail. | *Mi animal preferido es el perro.* |
| Cath. | *Gato.* |
| Ceffyl. | *Caballo.* |
| Eliffant. | *Elefante.* |
| Cwningen. | *Conejo.* |
| Buwch. | *Vaca.* |
| Dafad. | *Oveja.* |
| Llew. | *León.* |
| Teigr. | *Tigre.* |
| Mwnci. | *Mono.* |
| Llygoden. | *Ratón.* |



## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


PLAS HEDD
Complejo Turístico
Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.
(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*



Tŷ Te hynaf Gaiman.
Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.
Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
10002 ATOL PROTECTED
www.teithiautango.co.uk
Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew
camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*
Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.



Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Pastai'r Bwthyn
# - pryd perffaith ar nosweithiau oer

Cynhwysion:
3 llwy fwrdd olew olewydd
1.25 kg cig eidion mân
2 winwns wedi'u torri'n fân
3 moron wedi'u torri
3 ffon o seleri wedi'u torri
2 clôf garlleg
3 llwy fwrdd o flawd plaen
1 llwy de o biwrî tomato
ychydig o bys
850ml stoc cig eidion
saws Soy
ychydig o ruwlys (*tomillo*)
2 deilen bae
digon o datws stwnsh i orchuddio'r cyfan - gyda chaws, nytmeg, halen a phupur ynddo

Cynheswch 1 llwy fwrdd o olew mewn sosban fawr, a ffriwch y cig mân nes ei fod yn frown. Wedyn tynnwch y cig o'r sosban a'i roi i'r naill ochr.

Rhowch weddill yr olew yn y sosban ac ychwanegwch y llysiau - coginiwch ar wres isel nes bod y cyfan yn feddal (tua 20 munud). Ychwanegwch y garlleg, y blawd a'r piwrî tomato i'r sosban a chodwch y gwres i goginio'r cyfan am rai munudau. Rhowch y cig yn ôl yn y sosban.

Ychwanegwch y stoc, y saws Soy, a'r perlysiau. Gadewch iddo fudferwi (heb gaead) am 45 munud. Erbyn hyn, fe ddylai'r grefi fod yn drwchus ac yn gorchuddio'r cig. Ychwanegwch ddigon o halen a phupur, a thynnwch y dail bae a'r rhuwlys ohono.

Yn y cyfamser, gwnewch y tatws stwnsh.


Rhowch y cig mewn bowlen sy'n addas ar gyfer y popty - efallai bydd digon ar gyfer dwy fowlen! Gorchuddiwch y cyfan gyda'r tatws stwnsh. Gallwch roi rhagor o gaws arno, os dymunwch.



Rhowch y pastai yn y popty ar farc nwy 7 a'i goginio am 25-30 munud, neu nes bod y caws yn dechrau troi'n frown.

Bwytewch gyda llysiau gwyrdd, er enghtraifft brocoli, pys, letys, ysbigoglys, bresych.

# Croesair Baneri'r Byd



Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!

AR DRAWS

1. BANER PA WLAD YN AMERICA SYDD Â'I HANNER YN FELYN, A'R HANNER ARALL YN GOCH A GLAS? (8)
5. PA LIWIAU SYDD AR FANER TONGA? (3, 4)
8. PWY GREODD FANER YR ARIANNIN? (6, 8)
10. BANER PA WLAD SY'N WYN AR Y TOP, GLAS GOLAU YN Y CANOL, A CHOCH AR Y GWAELOD? (5)
12. BANER PA WLAD SYDD Â HAUL COCH ARNI? (6)
13. BETH SYDD AR FANER TWRCI? (5, 5)
14. BETH SYDD AR FANER CYMRU? (5, 3)
15. BANER PA WLAD SYDD Â CHROES LAS AR GEFNDIR GLAS? (5)

I LAWR

1. BANER PA WLAD SYDD Â DEILEN MASARN (ARCE) GOCH ARNI? (6)
2. LLIWIAU BANER GWERINIAETH IWERDDON: GWYRDD, GWYN , AC _ (4)
3. BANER PA WLAD SY'N DDU A GWYRDD, A CHROES FELEN ARNI? (7)
4. BANER PA WLAD SY'N GOCH A GWYRDD GYDAG ERYR ARNI? (7)
5. PA SIÂP SY'N LLIW GLAS AR FANER BRASIL? (4)
6. LLIWIAU BANER YR EIDAL: COCH, GWYN, A _____(5)
7. BETH SYDD AR GANOL BANER YR ARIANNIN? (4)
8. LLIWIAU BANER YR ALMAEN: COCH, DU, A ____ (5)
9. PA ADERYN SYDD AR FANER YR AIFFT? (4)
11. CROES PA SANT SYDD AR FANER YR ALBAN? (6)

## Geirfa'r Mis / *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| tymor | ***temporada*** | rhaglen | ***programa*** |
| gwobr(au) | ***premio(s)*** | addurno | ***decorar*** |
| godro | ***ordeño*** | pentwr | ***montón*** |
| diflino | ***incansable*** | brwydro | ***luchar*** |
| teirgwaith | ***tres veces*** | arddangosfa | ***exposición*** |
| gwifoddolw(y)r | ***voluntario(s)*** | | |

# Cornel y Plant

Llongyfarchiadau i **Franco Vasquez Cruz**, Ysgol Bryn Gwyn ar ennil gwobr am liwio llun Tomos Caradog!

Lliwiwch y Dyn Eira

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd erbyn 25 Gorffennaf 2012 am gyfle i ennill gwobr!



## Chwilair y Gaeaf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| d | m | r | n | o | th | r | b | n | i | m | e | n |
| y | e | g | a | e | a | f | t | j | ng | e | l | s |
| n | g | w | h | r | ff | e | i | m | t | n | h | ff |
| f | b | y | ll | f | b | g | n | a | s | i | r | d |
| t | o | l | w | e | i | r | a | l | y | g | w | a |
| dd | f | i | r | l | w | ff | p | u | rh | l | d | ff |
| h | s | a | n | ph | c | a | g | s | e | t | h | g |
| d | c | u | h | m | h | t | e | g | w | y | n | t |
| c | b | n | s | g | a | r | ff | i | ch | p | o | m |

Gaeaf
Eira
Oerfel
Gwyliau
Gwynt
Rhew
Sgarff
Menig

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198